# Cofnodion Cyfarfod CCG 2.12.21 (yn lle Tachwedd)

**Am 7.30yh Ar-lein**

**19:271: Presennol:** Gareth Wyn Jones, (Cadeirydd), Huw Williams, Bedwyr Fychan, Rhodri Wigley, Elwyn Vaughan, William Owen, Gwenfair Davies, Gwen Lloyd, Gareth Owen, Paul Hughes, Sandra Evans (Clerc)

**19:272: Ymddiheuriadau:** Deryck Lewis, Aled Griffiths

**19:273: Datganiadau o ddiddordeb:** Dim

**19:274: Cyflwyno a derbyn cofnodion Medi**. Cynigiwyd bod y cofnodion yn gywir gan Bedwyr Fychan. Fe'i heiliwyd gan Rhodri Wigley.

**19:275: Materion yn codi o'r Cofnodion**
**19:276: Adroddiad y Clerc** Nodwyd bod:

- Y Parch Beecroft wedi anfon neges ar ran adran gyfreithiol yr eglwys yn gofyn am dystiolaeth mai'r eglwys oedd piau wal eglwys Llanwrin ac yn tybio mai'r Cyngor fyddai'n gyfrifol am docio'r ywen. Mae ffens eglwys Darowen yn dal i gael ei hystyried.
- ciosg Darowen yn y Gwanwyn yn cael ei beintio gan BT yn y Gwanwyn
- hysbyseb wedi cael ei osod yn y Blewyn Glas ar gyfer ciosg Cemaes
- biniau Cwm Ffrydlan wedi eu hadrodd ddwywaith eto i Gyngor Sir Powys
- **Canolfan Hamdden Bro Ddyfi-** Cafwyd llythyr yn dweud bod y toiledau wedi cael eu trwsio a bod y caffi wedi cael ei droi'n lle chwarae i blant bach. Er hynny, mynegwyd pryderon gan y Cyngor nad oedd yr ardal chwarae'n arbennig iawn, mai dim ond ei gwneud yn ddiogel oedd wedi digwydd yn hytrach na'i ddatblygu'n ardal benodol i blant chwarae.

**19:277: Cynllunio -** 21/1905/HH -Codi garej/gweithdy: Rosterick Cottage, Ceinws, Machynlleth, Powys SY20 9HA Cymeradwywyd y cais gan Huw Williams ac fe'i heiliwyd gan Gareth Owen

19:278: nodwyd y cynhelir etholiadau Cynghorau Cymunedol a Sir ym mis Mai 2022. Derbyniwyd llythyr gan yr adran etholiadau yn cynghori Cynghorau Cymunedol i ystyried y byddai costau rhwng £500.00 - £2,500 yn fras ac y dylid ystyried y costau hyn wrth osod praesept 2021-2022.

19:279: Gosod precept 2021-2021 Penderfynwyd gohirio'r drafodaeth tan y cyfarfod nesaf.

**19:280: Materion ariannol ac eitemau i'w talu**

- Nodwyd bod taliad Whittingham Riddell ar gyfer cyflogres Mehefin-Awst a thrafod gyda CThEM - £150.02 a ddaeth ddiwedd Medi, ar ôl cyfarfod Medi CCG wedi cael ei dalu.

- CThEM Cynigwyd y bydd yn iawn i dalu'r swm ar ôl iddo gael ei gadarnau gan Gwenfair Davies ac fe'i heiliwyd gan Gwen Lloyd.
- Cyflog y Clerc £255.20 (Hydref) + 292.40 (Tachwedd)- £ 547.60
- Pensiwn y Clerc - Gohiriwyd y drafodaeth am y posibilrwydd hwn tan y cyfarfod nesaf.
- Cyflog y Clerc £255.20 (Hydref) + 292.40 (Tachwedd)- £ 547.60 Cynigwyd y dylid talu hwn gan Gwen Lloyd ac fe'i heiliwyd gan Gareth Owen
- Blewyn Glas 10.00 Hysbyseb ciosg Cemaes Rhif anfoneb: Tach5
- Gloversure £9.12 anfoneb -20689 – Cyngor technegol
  Cynigwyd y dylid talu'r ddau uchod gan Gwen Lloyd ac fe'i heiliwyd gan Huw Williams
- Aelodaeth ICCM (Sefydliad Rheoli Mynwentydd ac Amlosgfeydd) £95.00 Cynigiwyd y dylid talu hwn gan Bedwyr Fychan ac fe'i heiliwyd gan Huw Williams.

**19:281: Adroddiadau'r Cynghorwyr**
**19:281:1: SARPA- William Owen** Mae trenau yn cael anhawster i gyrraedd Aberystwyth ers i'r orsaf newydd agor yn Bow Street gan fod dail ac ati yn eu rhwystro wrth adael yr orsaf.

**19:281:2: Cyngor Sir Powys - Elwyn Vaughan** Nodwyd bod rhieni'n poeni nad oes lle i'w plant yn Ysgol Feithrin Glantwymyn. Ategwyd hyn gan Gynghorwyr y Cyngor Cymuned, gan fynegi pryderon nad yw plant Powys yn cael yr un cyfleoedd â phlant mewn mannau eraill yng Nghymru. Nid yw'r ddarpariaeth gyfredol yn cyferbynnu â nifer y plant. Gan fod Powys wedi cael gwared ar ddosbarthiadau meithrin mewn ysgolion mae mwy o bwysau ar Ysgolion Meithrin i ddarparu gan olygu bod y llefydd sydd ar gael yn yr Ysgol Feithrin yn cael eu llenwi gan blant hŷn. Yng Nghylch Meithrin Glantwymyn mae 18 o blant yn barod i fynd i'r ysgol ar hyn o bryd, pe byddai'r ddarpariaeth briodol ar gael yno. Nid yw meini prawf Powys yn ystyried gwybodaeth leol o ran plant sy'n byw o fewn dalgylch yr ysgol feithrin. Cysylltir â Lynette Lovell i fynegi pryderon y Cyngor.

**19:283: Eglwysi Darowen a Llanwrin.** Penderfynwyd cysylltu â Gwylim Fychan, John Jones a Stephen Tudur i geisio gwybodaeth berthnasol am yr eglwysi o ran cynnal a chadw a gweinyddu. Cyfeiriwyd y Cyngor hefyd at yr Eglwys yng Nghymru ac Esgobaeth Bangor o ran cael hyd i wybodaeth berthnasol.

**19:284: Bocs ffôn Cemaes** Gan fod y camau priodol wedi cael eu dilyn sef hysbysebu yn y Blewyn Glas a holi helaeth, nodwyd y byddai'n bosib dan amgylchiadau arbennig, ofyn i bobl addas wneud y gwaith a'u talu gan gynnwys Cynghorwyr lleol. Penderfynwyd felly dynnu sylw Peter Jones at yr hysbyseb. Pwysleisiwyd eto bod angen i'r gwaith ateb gofynion diogelwch am fod y ciosg ar gyfer defnydd y cyhoedd.

**19:285: Gohebiaeth**: Cafwyd neges gan yr elusen 'Gadael Olion Pawennau yn Unig'

Mae pryderon parhaus ynglyn â baw cŵn yn yr ardal yn enwedig yng Nghemaes a Chwmlline. Er i'r Cyngor ofyn droeon i Gyngor Sir Powys am finiau a gwasanaeth i'w gwagio, ni chafwyd unrhyw finiau. Mae'n debyg bod arwyddion ychwanegol wedi cael eu codi. Mae'r Cyngor yn canolbwyntio ar newid agwedd perchnogion cŵn ac yn gwahodd y cyhoedd i adrodd achosion er mwyn codi dirwy ar y sawl sy'n gyfrifol.
Mae'r Cyngor Sir yn gweithio gyda Chadw Cymru'n Daclus ar ymgyrch genedlaethol i godi ymwybyddiaeth ac annog y perchnogion cŵn dan sylw i fod yn gyfrifol a chodi baw eu cŵn.

https://keepwalestidy.cymru/cy/blog/gwnewch-y-peth-iawn-a-gadael-olion-pawennau-yn-unig/
(Mae posteri dwyieithog ar gael am ddim o'r wefan hon)

waste.awareness@powys.gov.uk

**19:286: Diffibrilwyr** Mae nifer o ffynonellau cymorth ar gyfer grwpiau o fewn y gymuned sydd am sefydlu diffibrilwyr. Mae gan Lywodraeth Cymru ymgyrch hyrwyddo diffibrilwyr ar hyn o bryd. Gellir gweld y broses ymgeisio am gyfraniad ariannol a'r meini prawf ar: www.llyw.cymru/achub-bywyd-cymru
Mae elusen Calon Heart yn cynnig cyfraniad ariannol a chyngor.
https://www.calonhearts.org/
Mae Cyngor Cymuned Glantwymyn hefyd yn gallu cefnogi. Gellir cael manylion pellach ccglantwymyn@gmail.com
**19:287**: Unrhyw fater Arall
**19:287:1**: Biniau Cwm Ffrydlan – mae problem yma o hyd gan nad yw'r biniau wedi cael eu gwagio na'u glanhau. Gofynnir am focsys ailgylchu ychwanegol gan fod yr hen rai wed torri ac mae pobl o lefydd eraill yn gadael sbwriel yma. Adroddir y broblem eto.

**19:287:2: Cynnal a chadw ffyrdd**
**Halen** Nodir bod angen archebu halen wrth gefn a dechrau rhoi halen ar y ffyrdd ym mhob ardal, yn arbennig yn Narowen a Chwm Ffrydlan.

**Glanhau trynciau ochr y ffordd** Gofynnir am sweeper a jetter yn enwedig yng Nghwm Ffrydlan, y ffordd gefn rhwng Ffridd Gate a Cheinws a Llanwrin (o flaen Cysgod y Coed a'r Tai Council) lle mae dŵr yn cronni

**Tyllau yn y ffordd** ac wrth ochr y ffordd ar y ffordd gefn rhwng Ffriddgate a Phantperthog.

**19:287:3: Cyfarchion**
Anfonir cerdyn at Gwyn Jones gan gofio ato ac estyn gwahoddiad iddo ymuno eto â chyfarfodydd y Cyngor. Danfonir copis o'r cofnodion ato.

Anfonir cerdyn at y Cynghorydd Deryk Lewis i ddymuno gwellhad buan ar ôl iddo dderbyn llawdriniaeth yn ddiweddar.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.35
Cynhelir y cyfarfod nesaf NOS FAWRTH 21.12.21